

## Tywydd Mawr

Y tywydd garw a hawliodd y sylw dros yr wythnos ddiwethaf, gyda'r eira a'r rhew a'r gwyntoedd mawr yn taro rhan helaeth o'r wlad. Gobeithio na chawsoch ddifrod i'ch tai a'ch eiddo. Bu rhai yn yr ardal heb drydan am gyfnod. Gobeithio bod y cyflenwad wedi ei adfer i bawb erbyn hyn. Bu sawl ysgol ynghau am ddyddiau a bu raid gohirio mwy nag un cyfarfod, ond gobeithio'n fawr fod pawb wedi medru cadw'n gynnes trwy'r cwbl. Mae'n addo tywydd gwell yr wythnos hon mae'n debyg.

## Cymorth Cristnogol

Dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni fydd Mai 13-19. Daeth galwad ffôn o Fangor yn ystod yr wythnos i ddweud fod yr amlenni wedi cyrraedd yno ar gyfer y casgliadau.

Mae'n edrych yn bell iawn i ffwrdd ar hyn o bryd ond buan iawn y daw mae'n debyg.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Mawrth 11:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Mawrth 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Mawrth 11

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

#### Mawrth 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Mawrth 25

5.00 p.m. - Mr John Roberts

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Mawrth 11:** Gwasanaethir yn y ddwy oedfa, am 10.00 a 5.00 o'r gloch, gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

### CARMEL

**Dydd Llun, Mawrth 5:** Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Mawrth 9:** Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 11:** Oedfa Gŵyl Ddewi yng ngofal y plant a'r ieuencid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

### BETHLEHEM

**Dydd Iau, Mawrth 8:** Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 11:** Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mawrth 11:** Ni fydd oedfa.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Mawrth 4

10.00 a.m. - Mr Corey Hampton

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Dim oedfa nos

#### Mawrth 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Mawrth 18

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

#### Mawrth 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu


Gofalaeth Fro'r  
Llechen Las

Rhif 762  
04 Mawrth, 2018  
**Gronyn**

## Cymanfa Brefi

I'r mwyafrif ohonom mae'r gair *cymanfa*'n awgrymu cymanfa ganu. Ond roedd y gymanfa a gynhaliwyd yn Brefi yn ail hanner y cheched ganrif yn debycach i gymanfa bregethu mae'n debyg. Mae'n bosib iawn fod yn y gymanfa (neu'r synod neu'r cyngor neu'r senedd honno) gryn drafod ar bynciau o bwys i Gristnogion yr oes, yn cynnwys rhai dadleuon diwinyddol. Mae Rhigyfarch, awdur *Buchedd Dewi* a ysgrifennwyd 500 mlynedd wedi marw Dewi, yn dweud i'r gymanfa gael ei chynnull i drafod 'Pelagiaeth', a bod Dewi wrth bregethu'r Efengyl yn mynd i'r afael â pheryglon mawr y ddysgeidiaeth honno. Derbyniwyd y syniad hwn am bwmpas Cymanfa Brefi wedi hynny, ond diddorol yw nodi fod fy hen brifathro yng Ngholeg Bala Bangor, Dr R Tudur Jones, yn gwrthod y syniad. Meddai ef, 'Y gwir yw fod Pelagiaeth wedi hen farw cyn hyn ... Digon posibl mai materion eraill oedd o dan sylw yn y gymanfa.'

Wyddom ni ddim beth oedd y materion hynny. Ond beth bynnag a drafodwyd, mae'n amlwg fod Dewi'n cyflwyno'r Efengyl mewn cyd-destun penodol ac yn wyneb rhai credoau neu syniadau arbennig. Ac i Dewi, mae'n amlwg fod pregethu'r Efengyl yn golygu nid yn unig gyhoeddi'r newydd da am Iesu Grist ond hefyd herio rhai o'r syniadau a oedd yn anghydnaws â'r Efengyl ac yn elyniaethus iddi. Roedd Pelagiaeth, a'i phwyslais ar allu pobl i gyfrannu at eu hiachawdwriaeth trwy ddewis gwneud daioni, yn groes i Efengyl sy'n



pwysleisio mai trwy ras a thrugaredd Duw yng Nghrist yn unig y down fel pechaduriaid i berthynas ag Ef. Ond os mai 'materion eraill' a drafodwyd yn Brefi, mae'n ddiogel dweud fod Dewi'n delio â nhw wrth iddo bregethu yn y gymanfa. O bosibl mai rhai o ddiffygion Cristnogaeth ei oes oedd dan sylw: Eglwys yn bodloni ar dlodi ysbrydol; offeiriad yn enwog am eu trachwant; pobl yn malio dim am gyfraith Dduw; a dim ond ychydig o Gristnogion yn arddel safonau moesol a oedd yn deilwng o ddilynwr Crist.

Heb os, rhan o lwyddiant Dewi oedd iddo, trwy ei bregethu, droi pobl oddi wrth gred ac ymddygiad a oedd yn groes i'r Efengyl ac yn anghyson â hi. Dyna y dylid ei gofio am gymanfa Brefi (Llanddewi Brefi erbyn hyn) yn hytrach na'r stori ryfedd (ac amheus) am y tir yn codi'n frincyn dan draed Dewi wrth iddo annerch y dorf.

Nid mewn gwacter yr ydym ninnau, mwy na Dewi, yn dwyn ein tystiolaeth i Iesu Grist. Mae pobl yn arddel pob math o syniadau am Dduw, am fywyd, ac am ffordd iachawdwriaeth hyd yn oed; ac mae angen i ni fel Cristnogion gyflwyno'r Efengyl mewn ffordd sy'n delio â'r syniadau hyn. Gall hynny olygu herio rhai pethau y mae pobl yn eu credu. Yn sicr, mae'n golygu herio pob syniad Pelagaid am allu pobl i sicrhau ffafr Duw trwy eu daioni eu hunain. Mae'n debyg fod hynny ym meddwl Dewi wrth iddo ddweud ar derfyn ei oes, 'Cedwch y Ffydd'.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn (A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Corey Hampton, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Mae'r oedfaon yn Llanllechid wedi eu gohirio heddiw oherwydd y rhew.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 1.45 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Cofion

## Balm o Salm



'Dywedwch ymhlith y cenhedloedd, "Y mae'r ARGLWYDD yn frenin"; yn wir, y mae'r byd yn sicr ac nis symudir; bydd ef yn barnu'r bobloedd yn uniawn. Bydded y nefoedd yn llawen a gorfoledded y ddaear; rhued y môr a'r cyfan sydd ynddo, llawenyched y maes a phopeth sydd ynddo. Yna bydd holl brennau'r goedwig yn canu'n llawen o flaen yr ARGLWYDD, oherwydd y mae'n dod, oherwydd y mae'n dod i farnu'r ddaear. Bydd yn barnu'r byd â chyfiawnder, a'r bobloedd â'i wirionedd' (Salm 96:10-13).

## Oedfa Gŵyl Ddewi wedi ei hail drefnu

Bydd plant ac ieuencid capel Carmel, Llanllechid yn cynnal eu Hoedfa Gŵyl Ddewi yn y capel am 10.30 o'r gloch fore Sul nesaf, Mawrth 11 (gan ei bod wedi ei gohirio heddiw).

Bydd cyfle i gael sgwrs dros banded yn y festri ar ôl yr oedfa.

## Casgliad y Genhadaeth

Daeth yn bryd unwaith eto i ni wneud y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Gobeithiwn gael y cyfan i law erbyn Sul olaf mis Mawrth.

Cewch roi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Defnyddir yr arian hwn gan Adran y Chwiorydd y Presbyteriaid i gefnogi gwaith cenhadol o fewn yr enwad a

## Deiniolen

Ar derfyn yr oedfa yn Neiniolen nos Sul bythefnos yn ôl, cyflwynodd y Gweinidog adroddiad am y diweddaraf ynghylch y capel.

Er i'r capel gael ei werthu mewn ocsiwn ddechrau mis Hydref, methodd y darpar brynwr â thalu mewn pryd, ac felly mae'r capel dal heb ei werthu a ninnau'n cael cadw'r blaendal a dalodd y darpar brynwr ddydd yr ocsiwn.

Bydd angen i ni ystyried yn ofalus beth i'w wneud nesaf o ran gwerthu'r capel. Nid oes unrhyw beth wedi ei benderfynu hyd yma.

gwahanol brosiectau cenhadol a dyngarol yma yng Nghymru a thramor.

## Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Mawrth 6. Ceir sgwrs gan Mr Dafydd Ellis, Brynrefail ar 'George M. Ll. Davies: Pererin Heddwch'.

## Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd

Daeth yr eira yr wythnos ddiwethaf i ddrysu'r cynlluniau ar gyfer dathliadau Gŵyl Ddewi mewn sawl ardal ar draws y wlad. A chlywyd ar y radio hefyd fod degau o oedfaon Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd wedi eu gohirio ddydd Gwener hefyd. Yn eu plith yr oedd yr oedfaon yn Nyffryn Ogwen a Deiniolen.

## Cymanfa Ysgolion Dosbarth Bangor a Bethesda

Cynhaliwyd Pwyllgor Cyffredinol y Gymanfa yn Festri Emaus, Bangor, nos Lun diwethaf. Penderfynwyd cynnal y Gymanfa yng Nghapel Emaus, Bangor fore Sul, Mai 20 am 10.30 o'r gloch.

## Cwrs Grawys

Gofynnwyd i ni dynnu sylw at Gwrs Grawys 2018, '40 o Straeon Gobaith', yng nghapel Shiloh, Tregarth bob nos Iau o hyn i'r Pasg. Bydd y cyfarfod nesaf am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Mawrth 8.

Dyma'r themau nesaf yn y gyfres:

4. Amser Penderfynu (Marc 10:42-45)
5. Gweithredoedd yn llefaru (Marc 14:22-25)
6. Trechu Angau (Marc 14:53-65)

## Agor y Llyfr

Bydd criw Agor y Llyfr yn Ysgol Gwaun Gynfi fore Gwener nesaf, Mawrth 9. Bydd yr ymarfer yn y Rheithordy yn Llanberis bnawn Iau.

Mae 'Agor y Llyfr' yn cyflwyno storiâu o'r Beibl trwy gyfrwng drama syml iawn. Cawn groeso yn yr ysgol bob amser.

Diolch i'r Parchg Carol Roberts am ei chroeso i ni yn yr ymarferion bob mis.

## CIC

Penderfynwyd gohirio CIC nos Wener oherwydd y tywydd mawr. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Wener, Mawrth 16.